Dewch i ymuno â'r hwyl yn ein clwb ar ôl ysgol sy'n cael ei gynnal o ddydd Llun i ddydd Iau o 3.15y.p tan 5.15y.h yn ystod tymor yr ysgol. Bydd cynnig i'r plant ymuno mewn llawer iawn o weithgareddau gwahanol yn cynnwys: celf a chreffft, cyfrifiaduron, sinema (dosbarth) a 'popcorn', coginio, chwaraeon a gemau.

Gofynnwn yn garedig i chi adael i ni wybod ar y dydd Llun am yr wythnos i ddilyn os yw eich plentyn/plant am fynychu'r clwb.

Mae'r clwb wedi ei rannu i 1 awr a dwy awr. Mae pob sesiwn awr yn costio £4 (Mehefin 2021) yn cynnwys byrbryd a diod.

Arweinydd y clwb yw Miss Natasha Davies sydd yn gymhorthydd yn yr ysgol.

After-School Club

Come along and join in the fun at the afterschool club which is held every Monday to Friday from 3.15 p.m. until 5.15 p.m. during school term time. The children can join in and take part in many different activities which include; arts and crafts, computers, cinema and popcorn, cookery and games.

We kindly ask that you book your child/children's place on a Monday for the coming week.

The sessions are split into 1 hour and 2 hour: The cost of each hour session is £4.00 (June 2021) to include a snack and drink. The club leader is Miss Natasha Davies who works as a teaching assistant at the school.

Clwb Codio

Cynhelir Clwb Codio yn wythnosol yn yr ysgol ar ddydd Llun o 3:15 i 4:15 i ddisgyblion yn CA2. Mae pob bloc o sesiynau yn parhau am 4 wythnos. Mae dysgu sut mae codio yn addysgu plant i reoli cyfrifiaduron a meistrolï datrys problemau drwy dorri tasgau'n ddilyniant rhesymegol o gamau llai, adnabod camgymeriadau a dod o hyd i ddulliau newydd pan fo'u hangen. Mae'n rhan ategol o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Pwrpas y clwb yw cael hwyl wrth ddysgu sut i godio ar y cyfrifiadur. Yn ystod y sesiynau rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio rhaglenni fel Scratch i greu gemau, symud lluniau neu hyd yn oed ffilm.

Coding Club

Coding Club is held weekly at the school on the Monday from 3:15 to 4:15 for pupils in KS2. Each block of sessions lasts 4 weeks. Learning how to code teaches children to control computers and master problem solving problem by cutting tasks into a logical sequence of smaller steps, identifying mistakes and finding new methods when needed. This is an ancillary part of the Digital Competency Framework. The purpose of the club is to have fun whilst learning how to code on the computer. During the sessions, pupils are given opportunities to use programs such as Scratch to create games, moving pictures or even a film.

Gymnasteg

Ar brynhawn dydd Iau ar ôl ysgol mae clwb gymnasteg yn cael ei gynnal i blant o ddosbarth Derbyn hyd at flwyddyn 6. Mae hwn yn glwb sy'n rhoi blas i'r plant ieuengaf ac hefyd yn dysgu sgiliau heriol i'r rhai fwyaf profiadol. O ganlyniad i'r hyfforddiant hwn mae tim gymnasteg yr ysgol wedi derbyn llwyddiant anhygoel mewn cystadlaethau dros y 7 mlynedd ddiwethaf. Mae dros 40 o blant yn mynychu'r clwb ac mae pawb yn mwynhau'n arw.

Gymnastics

On Thursday afternoons after school, there is a gymnastics club for children from Reception to Year 6. This is a club that gives the younger a taste of the sport and also teaches the most experienced children some challenging skills and moves. As a result of this training, the school's gymnastics team have received incredible success in competitions over the last 7 years. Over 40 children attend the club and each one enjoys it tremendously.

Clwb Rhedeg

Mae Clwb Rhedeg yn cael ei gynnal 2 fore yr wythnos cyn amser ysgol. Mae cyfle i'ch plentyn wneud ychydig o ymarfer corff a chadw'n heini gyda' u ffrindiau o dan arolygaeth staff yr ysgol.

Running Club

A Running Club is held 2 mornings a week before school time. There is an opportunity for your child to do some exercise and keep fit with their friends under the supervision of school staff.

Cynllun Gwên

Mae'r CS yn rhan o 'Gynllun Gwên' sy'n golygu fod pob dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen, Meithrin i Flwyddyn 2 yn glanhau eu dannedd yn ddyddiol.

The Foundation Phase is part of 'Designed to Smile' programme which means that every class in the Foundation Phase, Nursery to Year 2 clean their teeth daily.





Urdd

Clwb yr Urdd

Cynhelir Clwb yr Urdd ar brynhawn Llun (3:15-4:15y.p). Mae croeso i blant o Flwyddyn 2 i fyny ymuno â changen Urdd yr ysgol. Anfonir gwybodaeth am sut i ymaelodi gyda'r Urdd ar gychwyn blwyddyn ysgol.

Mae gweithgareddau Clwb yr Urdd yn cynnwys:

- *Chwaraeon
- *Gemau bwrdd
- *Bingo
- *Celf a chrefft
- *Cerddoriaeth

Mae bod yn aelod o gangen Urdd yr ysgol yn galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn cystadlaethau lleol, ardal a chenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- *Canu
- *Chwaraeon
- *Celf a chrefft

Yn flynyddol, rhoddwn y cynnig i ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 fynychu cwrs preswyl un noson yng Ngwersyll yr Urdd Glan-Ilyn. Dyma gyfle i brofi gweithgareddau megis dringo, canŵio, cyfeiriannu, disgo, adeiladu rafft, bowlïo deg, bingo, cwis, nofio a llawer mwy.

Urdd Clwb

The Urdd Club is held on a Monday afternoon (3:15-4:15pm). Children from Year 2 upwards are more than welcome to join the school's Urdd branch. Information is sent about Urdd membership at the beginning of the school year.

Urdd Club activities include:

- *Sports
- *Board games
- *Bingo
- *Art and craft
- *Music

Being a member of the school's Urdd branch enables pupils to participate in local, area and National Urdd competitions. These include:

- *Singing
- *Sports
- *Art and Craft

We annually give an opportunity for Year 3 and 4 pupils to attend a Glan-Ilyn one-night residential course. This is an opportunity to participate in activities such as climbing, canoeing, orienteering, disco, raft building, ten pin bowling, quiz, swimming and much more.

Ardal Tu Allan/Outdoor Area

Ardal Tu Allan

Yn yr ysgol mae gennym dair ardal tu allan ble mae'r disgyblion yn gallu chwarae, dysgu am yr amgylchedd a natur a hefyd cymryd rhan weithredol mewn tyfu llysiau gwahanol.

Mae'r ardal Cyfnod Sylfaen yn rhoi cyfle i ddisgyblion o'r dosbarth meithrin a derbyn ac hefyd BL 1&2 i chwarae a dysgu mewn amgylchedd ddiogel, ond hefyd yn yr awyryach. Mae'r ardal hon yn cynnwys tŷ bach twt, cwch, cafn dwr, twb tywod a beiciau i'r plant fwynhau.

Mae'r brif ardal chwarae i weddill disgyblion yr ysgol yn cynnwys iard fawr i chwarae gemau, parc antur, poncen laswellt a gyfer yr haf a hefyd ardal wylt gyda phwl sydd yn cynnwys nifer o bysgod ac anifeiliaid gwylt.

Mae yna hefyd gae ar gyfer chwaraeon.

Yr Ardd

Yn flynyddol mae plant yr ysgol yn brysur yn ystod tymor y gwanwyn/haf yn plannu llysiau, ffrwythau a blodau. Rydym wedi cael cynnyrch llwyddiannus iawn dros y blynyddoedd. Mae'n bleser gweld ein gardd yn llawn ac yn lliwgar. Rydym yn casglu'r cynnyrch ac yn defnyddio'r llysiau yn ein gwersi coginio. Mae'r cynnyrch sydd ar ôl yn cael ei werthu i rieni. Mae plannu hadau a'u gwyllo'n tyfu'n blanhigion ffrwythlon yn bleserus. Bydd hyn yn dysgu'r plant am hunan-gynhaliath a chynladwyedd yn ogystal â bwytan iach.

Byddwn yn defnyddio'r ardd yn ein gwersi mathemateg hyd yn oed er mwyn dod a'r pwnc yn fyw. Mae'n ddiddorol cael chwilio a gweld gwahanol anifeiliaid, adar, llyffantod, pryfed a gloynnod byw sydd yn byw yn ein gardd, mae'r plant wrth eu bodd yn cael rhoi bwyd a dwr lldynt.

Outdoor Area

The school has three main outdoor areas where the children can play and learn about the environment in a safe and exciting way and also take an active part in growing plants and vegetables.

The Foundation Stage area gives children from the nursery and reception and years 1&2 a chance to interact in a safe and interesting, outdoor environment. This area includes a 'little house', a boat, sand pit, water trough etc.


The Garden

Annually, children at Valley School are very busy during the spring/summer months planting many different vegetables, fruit and flowers. We've had a very successful produce every season with plenty of crops. It is a pleasure seeing the garden full and colorful. We collect the produce and use it in our cooking lessons as fresh ingredients. Some of the fruit and vegetables left over is sold to our parents.

Sowing seeds and watching them grow is very enjoyable. It teaches the children about self-sufficiency and sustainability, as well as healthy eating. We even manage to use the gardening in Maths lessons to bring the subject alive.

Children enjoy exploring our garden, and finding different animals, birds, frogs, insects and butterflies.





Chwaraeon ac Addysg Gorfforol/ Sport and Physical Education

Mae pob dosbarth yn cael sesiynau Addysg Gorfforol dwy waith yr wythnos, arwahan i'r dosbarth Meithrin sy'n cael un sesiwn yr wythnos. Yn Ysgol y Fali rydym yn credu bod hybu ffitrwydd a cadw'n iach yn hollbwysig i ddisgyblion o oedran cynnar.

Mae'r sesiynau yn newid pob hanner tymor ac maent yn cynnwys rhai o'r canlynol;

nofio, dawns, gymnasteg, sgiliau pêl, pêl-droed, athletau, rygbi, cyfeiriannu, pêl-rwyd, ioga, gemau goresgyn, gemau buarth a chriced.

Rydym yn cael pobl allanol i ymweld â'r ysgol ar adegau sydd yn cynnig sesiynau yn eu meysydd arbenigedd. Bydd clybiau Addysg Gorfforol yn cael eu cynnig ar ôl ysgol am gyfnodau yn ystod y flwyddyn. Mae cyfleoedd i blant chwarae mewn timau yn erbyn ysgolion eraill a bydd rhai gweithgareddau yn cael eu cynnal oddi ar dir yr ysgol.

Byddwn yn cynnal wythnos/diwrnod ffitrwydd yn flynyddol yn yr ysgol ble bydd gweithgareddau a gweithdai corfforol a cadw'n iach yn cael eu cynnal gyda pobl allanol yn cynnig arbenigedd yn eu sesiynau a chyfle i'r disgyblion gael blas ar sesiynau chwaraeon amrywiol sydd ddim yn cael eu cynnig yn yr ysgol megis bocsi a chodi pwysau yn ogystal â chwaraeon eraill. Mae'r ysgol yn cael llwyddiant mawr mewn cystadlaethau sirol.

Each class has 2 Physical Education lessons on a weekly basis, except for the Nursery class, which has 1 lesson a week. Here at Valley School, we feel that educating pupils from an early age about the importance of fitness and keeping healthy is very important.

Sessions change each half-term and can include some of the following activities:

Swimming, gymnastics, football, rugby, netball, cricket, dance, ball skills, athletics, orienteering and yoga.

From time to time, sports coaches visit the school to offer their expertise. There will also be sports clubs during specific times of the year. There are opportunities for the pupils to play as part of a team against other schools and some activities take part away from the school grounds. The school teams have received great success in county competitions.

A fitness day/week is held annually where activities and workshops on fitness and keeping healthy are offered from experts. This gives the children a taster of different sports which aren't offered in school, such as boxing and weightlifting.



TGCh / IT

Mae TGCh yn chwarae rhan flaenllaw yn yr ysgol, bydd plant o'r dosbarth Meithrin i fyny yn defnyddio TGCh yn wythnosol. Mae gan yr ysgol ddigon o iPads, Chromebooks a cyfrifiaduron (gan gynnwys 10 iMac Apple) i bob plentyn mewn dosbarth. Bydd amrywiaeth o raglenni a capiau yn cael eu defnyddio i wella sgiliau rhifedd, llythrennedd ac i wneud gwaith ymchwilio.

Bydd pob dosbarth yn yr ysgol yn defnyddio 'sgrin werdd' er mwyn ffilmio plant i greu fideos sydd yn cyd-fynd gyda'r thema. Erbyn BL5&6 bydd y plant yn golygu'r fideos eu hunain. Mae gan yr ysgol wefan 'dropbox' ble byddwn yn rhannu'r afer dda hwn gyda rhieni. Mae Clwb Codio wythnosol yn cael ei gynnal a'r ôl ysgol a gyfer plant o flwyddyn 2 i 6. Mae'r ysgol wedi cael ei hadnabod yn lleol fel ysgol sydd yn arwain y sector hwn.

YouTube

Yn flwyddol bydd Blwyddyn 5&6 yn ysgrifennu, recordio a ffilmio cân er mwyn ei rhoi ar y safwe Youtube 5 mlynedd yn ôl ca fodd y gân gyntaf ei uwchlwytho a derbyniodd bron i 6 mil o olygon o fewn 2 wythnos gan bobl o bob rhan o'r byd. Gan ei bod mor boblogaidd daeth y rhaglen Heno a BBC Radio Wales i'r ysgol i gyfnewid y plant.

Erbyn hyn mae 2 fideo arall wedi cael eu creu ac wedi cael eu gwyllo miloedd o weithiau. Ca fodd y fideo diwethaf ei chyd-ysgrifennu, recordio a ffilmio gydag ysgol o Japan. Dyma'r tro cyntaf erioed i ddwy ysgol o wledydd gwahanol wneud prosiect o'r fath.

Gwelir y fideos hyn o dan 'Ysgol Fali'

ICT plays a prominent role in the school, children from the Nursery class upwards use ICT weekly. The school has enough iPads, Chromebooks and computers (including 10 Apple iMacs) for each child within a class. A variety of apps and programs are used to enhance the children's numeracy, literacy and investigative skills.

Each class in the school uses 'green screen technology' to film children to create videos that relate to the class theme. By Year 5 & 6, the children edit these videos themselves. A weekly after-school Coding Club is held for pupils from Year 2 to 6. The videos are shared with the parents.

The school has been recognized locally for leading the sector with ICT.


YouTube

Annually, Years 5 & 6 aim to write, record and film a song to upload to YouTube. 5 years ago, the first song released had over 6 thousand views from all over the world in under 3 weeks, this grabbed the attention of the local press and following this the program 'Heno' and BBC Radio Wales came to school to interview the children.

Since this, another 2 videos have been created and have received thousands of hits. The latest video was co-written, recorded and filmed with a school from Japan. This was the first time ever for two schools from different countries to participate in such a project.

The videos can be seen by searching 'Ysgol Fali'.

<https://www.youtube.com/channel/UCvGIYX41oaVvd-HiftaHdoA>



Cyswllt Rhyngwadol

International Links

Ers dros ddegawd, mae Ysgol y Fali wedi cael cyswllt llwyddiannus gydag ysgolion tramor ac wedi ymweld â gwledydd fel y Ffindir a Gwlad Groeg, Cyprus, Slofenia, Sbaen ac Iwerddon gyda phlant. Yn y cyswllt diweddaraf mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 wedi cyd-ysgrifennu, recordio a ffilmio gydag ysgol 'Kitachui' o Japan. Mae'r gân yn cynnwys 3 iaith (Cymraeg, Saesneg a Japaneaidd). Dyma'r tro cyntaf erioed i ddwy ysgol o wledydd gwahanol wneud prosiect o'r fath ac oherwydd hyn mae wedi derbyn cryn sylw gan gylchgronau o Lundain a Tokyo. Mae erthygl fawr ar y prosiect yn y 'Kyoto Journal' Hydref 2016.

Yn y flwyddyn 2017 mae'r prosiect cyswllt yn cynnwys cyd-ysgrifennu stori am blentyn o Fali yn deffro mewn ysgol yn Japan. Cafodd y stori ei hysgrifennu mewn rhannau a roedd cwmni o Lundain yn cyfieithu'r gwaith i'r ddwy ysgol. Cafodd fidio ei gwneud o'r darn gorffenedig. Fel rhan o'r cyswllt rhyngwladol hwn, mae gan bob plentyn yn BL5&6 ffrind o Ysgol Kitachui a byddent yn sgwrsio gyda hwy yn aml ar y wê.

For over a decade, Ysgol Fali has had strong international links with other schools. Pupils have visited schools in countries such as Finland and Greece, Cyprus, Slovenia, Spain and Ireland.

The latest link includes a project run by Years 5 & 6 with Kitachui Elementary school in Japan. The project started with co-writing, recording and filming a music video. This video contains three languages (Welsh, English and Japanese) This was the first time ever for two schools from different countries to participate in such a project, and as a result, received a great deal of attention from magazines in London and Tokyo. There is a large article about the project in the "Kyoto Journal, October 2016".

The 2017 project involved co-writing a story about a child from Fali waking up one morning in a school in Japan. The story was written in parts and translated for both schools by a company in London. A video was created from the final version of the story.

<https://www.youtube.com/watch?v=Pz71al-suno&t=166s>

We speak different languages.
But we're friends"

A Japan Society-assisted music project brings together elementary school students in Japan and Wales.



ANNA MEHTA

Dysgu Ar-lein/Online Learning

Mae gan Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 ystafell ddosbarth ar-lein a ddefnyddir gan athrawon i osod gwaith cartref a chefnogi'r rhai sy'n gweithio o gartref. Mae'r platfform wedi profi i fod yn hynod effeithiol, gyda phlant yn cyflwyno fideos darllen yn Saesneg a Chymraeg bob pythefnos yn ogystal â chwblhau tasgau creadigol. Mae Google Classroom yn ffordd berffaith o gadw mewn cysylltiad â'r athrawon sy'n defnyddio'r platfform wrth ddarparu adborth.

Yn ystod y cyfnod clo roedd pob dosbarth yn cael gwersi byw dyddiol ar Microsoft TEAMS.

Dyma rai o fanteision o ddefnyddio Google Classroom:

- Plant yn rhan o'r dysgu.
- Tasgau creadigol yn lleihau amser o flaen sgrin.
- Llyfrau darllen - pob dosbarth â chyflenwad o lyfrau darllen ar Google Classroom.

Year 1 to Year 6 have an online classroom which is used by teachers to set homework and support those working from home. The platform has proven to be highly effective, with children submitting reading videos in English and Welsh each fortnight as well as completing creative tasks. It is the perfect way to keep in contact with the teachers who use the platform as a means of providing feedback.

During the lockdown, all classes were receiving daily live lessons on Microsoft TEAMS.

Here are some of the benefits of using the online platform:

- Children part of learning process.
- Creative tasks reduce time on screen.
- Reading videos—each class has a series of books available on Google Classroom.



Yr Iaith Gymraeg / The Welsh Language 2020/21

<u>Blwyddyn / Year</u>	<u>Siarad Cymraeg gyda 1 rhiant/Speak Welsh with 1 parent</u>	<u>Siarad Cymraeg gyda 2 riant/Speak Welsh with 2 parents</u>	<u>Dim yn siarad Cymraeg yn y cartref/Don't speak Welsh at home</u>
M (13)	5 (20%)	4 (30.77%)	4 (30.77%)
D (5)	3 (60%)	0 (0%)	2 (40%)
1 (13)	5 (41.67%)	1 (8.33%)	6 (50%)
2 (14)	7 (50%)	3 (21.43%)	4 (28.57%)
3 (15)	6 (40%)	4 (26.67%)	5 (33.33%)
4 (7)	2 (28.57%)	2 (28.57%)	3 (42.86%)
5 (15)	9 (60%)	4 (26.67%)	2 (13.33%)
6 (7)	4 (57.14%)	3 (42.86%)	0 (0%)
Cyfanswm/Total	41 (15.91%)	21(23.86%)	26 (29.55%)

Defnydd o'r Gymraeg

Cymraeg yw prif gyfrwng y dosbarth Meithrin a'r dosbarth Derbyn ac ym mywyd a gwaith y Cyfnod Sylfaen, fel bod gan y disgyblion sylfaen gref yn yr iaith. Mae llawer o blant sy'n dechrau eu haddysg gyda ni yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol. Addysgir y Gymraeg gan staff sy'n sensitif i anghenion y plant.


Addysgir Cymraeg trwy hwiangerddi ac ailadrodd a thrwy chwarae. Erbyn diwedd y flwyddyn Meithrin mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau defnyddio ymadroddion syml yn Gymraeg i fynegi eu hunain.

Cyflwynir Saesneg yn ffurfiol ym Mlwyddyn 2 er mwyn sicrhau bod plant yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol yn 11 oed. Yn ystod eu taith o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 bydd disgyblion yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg.

Mae'r gymhareb gwersi a addysgir trwy un cyfrwng neu'r llall yn cael ei haddasu i ateb anghenion dosbarth unigol, fel bod y disgyblion, erbyn diwedd eu haddysg yn yr ysgol, yn anelu at gael yr un lefel o allu a hyder yn y ddwy iaith.

Mae plant sy'n dod i'r ysgol hon ym Mlwyddoedd 3 neu'n hŷn, nad ydyn nhw'n gallu siarad Cymraeg yn cael cyfle i fynychu cwrs dwys mewn Uned Iaith Gymraeg am dymor fel eu bod nhw'n gallu integreiddio'n llawn i fywyd ysgol yn ogystal â'r gymuned leol. Asesir plant yn Ysgol y Fali yn eu gallu yn Gymraeg fel iaith gyntaf, yn unol â Pholisi Iaith yr AALI. Mae hyn yn digwydd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Mewn rhai achosion gellir eithrio rhai disgyblion rhag cael eu hasesu yn Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae hyn yn dibynnu ar yr amser a dreulir yn yr ysgol yn dysgu'r iaith. Cyn i ddisgyblion symud i'r ysgol uwchradd, trafodir eu gallu yn Gymraeg gyda Phennaeth Blwyddyn 7. Yna mae'r ddwy ysgol yn penderfynu pa ddosbarth i osod pob disgybl ym Mlwyddyn 7 fel bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Rydym ni, yn Ysgol y Fali, yn gweithredu canllawiau a nodir yn Siarter Iaith Ynys Môn. Gofynnwyd i bob ysgol yn Ynys Môn fabwysiadu'r siarter ac annog defnyddio'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc ar yr ynys.



The Welsh Language

Welsh is the main medium of the Nursery and Reception class and in the Foundation Phase's life and work, so that the pupils have a strong foundation in the language. Many children who start their education with us learn Welsh at the school. The Welsh language is taught by staff that are sensitive to the needs of the children.

Welsh is taught through nursery rhymes, repetition and play. By the end of nursery year, most children begin to use simple phrases in Welsh to express themselves.

Introducing English is formally introduced in Year 2 in order to ensure that children are fully bilingual by the time they leave school at 11 years of age. During their journey from Year 3 to Year 6, pupils will be taught through the medium of Welsh and English.

The ratio of lessons taught through the two mediums is adapted to answer the needs of individual class, therefore by the end of their education at the school, the pupils aim to have the same level of ability and confidence in both languages.

Children who come to this school in Years 3 or above, and who are unable to speak Welsh, are given an opportunity to attend an intense course at a Welsh Language Unit for a term. This allows them to fully integrate into school life as well as the local community. Children at Ysgol y Fali are assessed in their ability in Welsh as a first language, in accordance with the LEA's Language Policy. This happens at the end of the Foundation Phase and at the end of Key Stage 2. In certain cases, some pupils may be excluded from being assessed in Welsh as first language. This is dependent on the time spent at the school learning the language. Before pupils move to secondary school, their ability in Welsh is discussed with the Head of Year 7. Both schools then decide on which class the child is to be placed on starting in Year 7.

We, at Ysgol y Fali, are implementing guidelines set out in Anglesey's Language Charter. Every school on Anglesey have been asked to adopt the charter and to encourage the use of the Welsh language amongst children and young people on the island.



Anghenion Dysgu Ychwanegol/Additional Learning Needs

Mae'r ysgol yn adnabod talentau a doniau'r unigolyn ond yn ystod eu hamser yn Ysgol y Fali, efallai bydd rhai disgyblion yn wynebu anawsterau gyda rhannau o'r gwaith. Gallai'r plant hyn fod angen cymorth ychwanegol neu wahanol i'r hyn a gaiff plant eraill o'r un oedran. Mae pob plentyn yn unigolyn gyda gwahanol anghenion, mae rhai galluog iawn, eraill yn llai felly. Bydd anghenion pob plentyn yn cael eu hasesu gan eu hathrawon a gwneir darpariaeth yn unol â hynny. Mae gan yr ysgol drefn ble gellir rhoi cymorth ychwanegol yn ôl yr angen.

Bydd yr athrawon yn trafod hyn gyda'r rhieni. Sicrhier fod anghenion yn cael eu darganfod a'u nodi yn gynnar ar gofrestr ADY'r ysgol yn unol â hynny. Os bydd yr anawsterau yn parhau bydd yr ysgol yn cysylltu â'r Awdurdod Addysg a fel rheol bydd cyngor ar gael gan Athro Arbenigol neu Seicolegydd Addysgol. Bydd y plant hyn yn dilyn Cynllun Datblygu Unigol ac yn derbyn y cymorth priodol. Darparir bamffled pwrpasol ar gyfer rhieni yn egluro'r drefn yma mewn manylder.


Mae dylanwad yr adnabyddiaeth cynnar i'w weld yn nghynnydd a llwyddiant y plant erbyn diwedd CA2. Dros y 3 mlynedd ddiwethaf mae 98% o blant ar y gofrestr ADY yn cyrraedd Dangosydd Pwnc Craidd erbyn iddynt adael yr ysgol.

Mae'r ysgol yn ymrwymedig i sicrhau bod ei holl ddisgyblion yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal ac nid oes unrhyw ddisgybl dan anfantais am ba reswm bynnag. Addaswyd yr adeilad yn effeithiol ar gyfer mynediad i rai ag anableddau. Mae'r dau lifft, ystafell pwrpasol ar gyfer ffisiotherapi, toiledau anabl, lloriau gwrthlithro a rampiau yn yr adeilad sy'n galluogi mynediad llawn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol a sicrhau bod disgyblion ag anableddau yn cael eu hintegreiddio'n llawn yn holl weithgareddau'r ysgol yn cynnwys chwaraeon, gwersi nofio ac ymweliadau addysgol.

The school recognises individual talents and aptitudes. During their time at Valley School, pupils may face some difficulties with the work. These children may need extra or different help to that of other children of the same age. Each child is an individual with different needs. Each child's needs are assessed by their teachers and provision is made accordingly. Our school has a procedure to support all children. Teachers will discuss this with the parents. This ensures that needs are discovered and identified early on and noted accordingly on the school's ALN register. If the difficulties continue, the school will contact the Education Authority and usually be advised by a Specialist Teacher or Educational Psychologist. These children will follow an Individual Development Plan and receive the appropriate individual support. A pamphlet is available for parents explaining this procedure in detail.

The influence of early intervention can be seen in the children's progress and success by the end of KS2. Over the last 3 years, 98% of children registered with ALN achieve a Core Subject Indicator by the time they leave school.

The school is committed to ensuring that all pupils are treated fairly and equally, and no pupil is disadvantaged for whatever reason. The building is adapted for effective access for those with disabilities. The building has two lifts, a room dedicated for physiotherapy, disabled toilets, non-slip floors and ramps that allows full access to the National Curriculum and ensures that pupils with disabilities are fully integrated into all school activities including sports, swimming lessons and educational visits.



AMDDIFFYN PLANT

Mae Ysgol y Fali yn blaenoriaethu amddiffyn a lles holl ddisgyblion yr ysgol. Yn ein hysgol ni, mae gan y Pennaeth gyfrifoldeb cyffredinol dros faterion amddiffyn plant (y Person Diogelu Dynodedig) ac mae'n gweithredu fel ffynhonnell cyngor a chefnogaeth i staff eraill yr ysgol. Mae'r Dirprwy Bennaeth yn gweithredu fel Person Diogelu Dynodedig yn ogystal.

Mae gan ein hysgol lywodraethwr amddiffyn plant enwebedig, sy'n gorfod sicrhau bod gan yr ysgol Bolisi Amddiffyn Plant yn ei le sy'n gyson â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Os byddwn yn derbyn gwybodaeth am blentyn sy'n awgrymu ei fod wedi cael ei gam-drin neu mewn perygl o gael ei gam-drin, mae gennym ddyletswydd i gyfeirio'r pryderon hyn i'r adran gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu yn ddi-oed. Nid oes gennym ddisgresiwn yn y mater hwn. Ein pryder cyntaf fel ysgol yw lles eich plentyn a lle mae gennym bryderon cyffredinol, bydd y rhain yn cael eu codi gyda chi a byddem am weithio gyda chi i unioni'r sefyllfa. Fodd bynnag, efallai y bydd pryderon, fel y rhestrir uchod, lle bydd yn rhaid i ni siarad ag asiantaethau eraill cyn i ni gysylltu â chi.

Child Protection

Valley School prioritises the protection and welfare of all pupils at the school. In our school, the Headteacher has overall responsibility for child protection issues (the Designated Safeguarding Person) and acts as a source of advice and support to other school staff.

The Deputy Headteacher also acts as a Designated Safeguarding Person.

Our school has a nominated child protection governor, who must ensure that the school has a Child Protection Policy in place that is consistent with the All Wales Child Protection Procedures. If we receive information about a child, which suggests that he or she has been or is at risk of abuse, we have a duty to refer these concerns to the social services department or the police without delay. We have no discretion in this matter. Our first concern as a school is your child's welfare. Where we have general concerns, these will be raised with you, and we would want to work with you to rectify the situation. However, there may be concerns, as listed above, where we may need to talk to other agencies before we contact you.



DISGYBLION GYDAG ANABLEDDAU/PUPILS WITH DISABILITIES



Mae Ysgol y Fali yn anelu i fod yn ysgol gynwysedig. Rydym yn sicrhau nad oes rhwystrau allai amharu ar ddysgu a chyfranogiad a allai amharu neu eithrio unigolyn neu grwp o ddisgyblion. Golyga hyn fod cyfle cyfartal yn realiti i bob disgybl, yn cynnwys disgyblion ag anableddau. Fe sicrhawn fod disgyblion ac anghenion yn cael yr un cyfleoedd a disgyblion eraill i elwa o'r addysg a gaiff ei ddarparu yn Ysgol y Fali.

Mae manylion ein Cynllun Hygyrchedd yn nodi'r newidiadau allai fod yn ofynnol i'w gwneud i'r adeilad, neu agweddau eraill o'r ysgol, fel ein bod yn cyflawni gofynion cyfreithiol, i symud rhwystrau er mwyn sicrhau cynhwysiad disgyblion ac aelodau'r staff sydd ag anableddau. Mae gan yr ysgol 2 lifft sydd yn caniatáu cadair olwyn neu plant gyda anhawster corfforol i gael mynediad llawn i'r safle.

Valley School aims to be an inclusive school. We ensure that there are no barriers that could impede learning and participation and disrupt or exclude an individual or group of pupils. This makes equality of opportunity a reality for all pupils, including those with disabilities. We will ensure that pupils with needs have the same opportunities as other pupils to benefit from the education provided at Valley School.

Details of our Accessibility Plan set out the changes that may be required to the building, or other aspects of the school, so that we meet legal requirements, thus removing barriers and promoting inclusion of pupils and members of the school staff with disabilities. The school has 2 lifts that allow wheelchairs or physically handicapped children to gain full access to the site.

IECHYD A DIOGELWCH

Mae iechyd, diogelwch a lles pob unigolyn sydd naill ai yn weithiwr neu'n ddisgybl yn Ysgol y Fali o bwysigrwydd sylfaenol. Rydym yn anelu i ddarparu amgylchedd gweithiol diogel a dymunol i bawb. Mae'r corff llywodraethol a'r AALL yn gyfrifol am sicrhau iechyd a diogelwch disgyblion ac aelodau staff. Rhaid i bob ymwelydd ymweld â'r dderbynfa wrth gyraedd yr ysgol. Mae pob drws a giât allanol yn cael eu doi yn ystod amser gwersi - ond yn caniatáu llwybr sydyn petai tân. Mae trefn mewn lle i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn ddiogel yn ystod y dydd megis ymarfer tân yn cael ei gynnal yn rheolaidd ac asesiad risg cyfredol. Mae holl offer trydanol yn cael ei brofi fel yr angen. Mae dŵr yr ysgol yn cael ei brofi o ran ansawdd yn rheolaidd. Mae cymhareb dda o oedolion i blant yn ystod amser chwarae. Mae ymarferwyr cymorth cyntaf ar ddylestwydd bob amser chwarae.

TREFN DIOGELWCH

Rydym yn ymdrechu i wneud yr ysgol mor ddiogel â phosibl. Mae giatia u'r ysgol yn cael eu doi am 9:00, ac o hynny ymlaen yr unig fynedfa yw prif fynedfa'r ysgol. Bydd rhaid i bob ymwelydd fynd drwy'r brif fynedfa, lle y byddwn yn eu hebrwng i'w cyrchfan.

MEDDYGINIAETH

Dim ond gyda chaniatâd ysgrifenedig trwy ddolen i Google Forms y gwnaiff athro/athrawes roi meddyginiaeth o unrhyw fath i blentyn, a hynny ond ar ôl ymgynghoriad â'r Prifathro.

DAMWEINIAU

Bydd yr athrawon yn delio â damweiniau bychain ac yn hysbysu'r rhieni trwy neges destun. Os digwyddir damwain ddifrifol, cysylltir â'r rhieni yn ddi-oed. Mae'n bwysig felly bod gan yr ysgol rif ffôn pob rhiant fel y gallwn ei ddefnyddio mewn argyfwng. Mae'n bwysig hefyd eich bod yn rhoi gwybod yn ddi-oed i'r ysgol os byddwch yn newid eich cyfeiriad neu rif ffôn.

HEALTH AND SAFETY

The health, safety and welfare of every individual who is either a worker or a pupil at Valley School is of fundamental importance. We aim to provide a safe and pleasant working environment for all. The governing body and the LEA are responsible for ensuring the health and safety of pupils and staff. All visitors must visit the reception on arrival at the school. All exterior doors and gates are locked during lesson time but allow a quick passage in the event of a fire. There is a system in place to ensure that all pupils are safe during the day e.g. fire practice carried out regularly; risk assessment; all electrical equipment is tested as required; the school water is regularly tested for quality; there is a good ratio of adults to children at playtime, and first aid practitioners are on duty at all times.

SAFETY PROCEDURE.

We strive to make the school as safe as possible. The school gates are locked at 9:00, and from then on, the only entrance is the main entrance to the school. All visitors will have to go through the main entrance, where we will escort them to their destination.

MEDICINE

Only with written permission through a link to Google Forms will the teacher administer medicine of any kind to a child. Consultation with the Headteacher is also required.

ACCIDENTS

Teachers deal with minor accidents and inform parents by text. In the event of a serious accident, parents will be contacted without delay. It is therefore important that the school has an up-to-date telephone number for each parent so that we can use it in an emergency. It is also important that you inform the school without delay if you change your address or phone number.



Blaenoriaethau'r Cynllun Gwella Ysgol 2021/22

Priorities for the School Development Plan 2021/22

Blaenoriaeth / Priority	Meysydd i'w gwella / Areas for improvement
1	<p>Datblygu sgiliau gweithio'n annibynnol a datrys problemau / rhesymu (rhifedd a bywyd pob dydd) Develop independent and problem solving / reasoning skills (numeracy and everyday life)</p>
2	<p>Datblygu effeithiolrwydd yr Ardaloedd Dysgu trwy roi sylw i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Wella'r ddarpariaeth yn yr Ardaloedd Dysgu ar waelod y CS, gan sicrhau bod tasgau'n cynnwys y lefel briodol o hêr ar draws y dosbarthiadau a bod sgiliau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn cael eu hymgorffori yn yr heriau. • Ddatblygu'r Ardal Allanol fel modd mwy effeithiol i gefnogi ac i gyfoethogi'r profiadau dysgu. <p>Develop the effectiveness of the Learning Areas by addressing:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Improve provision in the Learning Areas at the bottom of the FP, ensuring that tasks include the appropriate level of challenge across classes and that the skills of the Literacy and Numeracy Framework and the Digital Competency Framework are incorporated into the challenges. • Develop the External Area as a more effective way to support and enrich the learning experiences.
3	<p>Parhau i gynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru gan ymateb i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. (Rhoi sylw i waith Shirley Clarke - Meddylfryd o Dwf a Cath Delve gan gynnwys y FfLI a Rh/TGCH yn drawsgwricwlaidd)</p> <p>Continue to plan for a Curriculum for Wales responding to local and national priorities. (Covering the work of Shirley Clarke - Growth Thinking and Cath Delve.</p>
4	<p>Datblygu sgiliau llafar a chywirdeb ein disgyblion yn y Gymraeg Developing our pupils' oral skills and accuracy in Welsh</p>

TREFN CWYNION/ Complaints

Mae'r Awdurdod Addysg Leol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 23 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae Cyrff Llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol ac hefyd fel dolen yn y prospectws hwn. Darperir copi'n rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg os bydd hynny'n angenrheidiol. Pwysleisir fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol.

Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gwyn gyda'r Pennaeth.

The Local Education Authority, in accordance with the Secretary of State's requirements, under Section 23 of the Education Reform Act 1988, has established a procedure for considering complaints about the way in which school Governing Bodies and the Education Authority are dealing with school curriculum and other related issues. This procedure is set out in a dedicated document in Welsh and English available at the school and also as a link in this prospectus. A copy is provided free of charge, on request, to any parents who wish to make a complaint under these arrangements and the Authority may provide a copy in a language other than English and Welsh if necessary. It is emphasized, however, that many complaints can be dealt with quickly and effectively through informal consideration based on discussions with the Headteacher. This is the first reasonable step, and the Governing Body will expect this step to be taken before formally submitting the complaint in exceptional cases.

The school should be contacted to make an appointment to discuss any complaint with the Headteacher.

Polisiau Pwysig – Important Policies

Isod mae dolenni i rai o'r polisiau pwysicaf. Mae'r holl bolisiau eraill ar gael ar gais.

Below are links to some of the most important policies. All other policies are available upon request.

- Polisi Cwynion / Complaints Policy: https://drive.google.com/file/d/1i7zQ_4Mxh3yC1T6y07aw4t-0Z1Mudk03/view?usp=sharing
- Polisi Mynediad / Admissions
Policy: https://drive.google.com/file/d/1DOJuAs44V4GieKHxKsbv8_v_HqA1Bb4/view?usp=sharing
- Polisi Diogelu /Safeguarding
Policy: https://drive.google.com/file/d/17gbb8UBChfgsK6VqioTE2YzhkEXg_rg_/view?usp=sharing
- Polisi Bwlio / Anti Bullying
Policy: <https://drive.google.com/file/d/1rFOsuygyjjZov1Xv7Eqz1Nx850Zjwsjp/view?usp=sharing>
- Polisi E Ddiogelwch / E Safety
Policy: https://drive.google.com/file/d/1Z5eQvPukdQjeV_kkY6J2as8Msfhlgbi/view?usp=sharing
- Polisi Presenoldeb / Attendance and Punctuality
Polisi: <https://drive.google.com/file/d/1mAcUW96plskDaReZOJaAePc-hjGUAUpi/view?usp=sharing>
- Polisi Diogelu Data / Data Protection
Policy: <https://drive.google.com/file/d/1xhglVegXifLjrtcy3gmeNRD7vt19cJln/view?usp=sharing>
- Polisi Cynnwys Rhieni / Parental Involvement
Policy: <https://drive.google.com/file/d/1m0tv5PN6F37fCFd9QAZGEuBLZS7SK5u-/view?usp=sharing>
- Polisi Ymddygiad Rhieni / Parent Behaviour
Policy: <https://drive.google.com/file/d/1b88BXagbOYZX1rWwOmeMsZy061pTfDL/view?usp=sharing>